

Cyngor Cymuned Ganllwyd

Gorffennaf 16eg 2025

Presennol

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,C.Dixon,D.Griffiths a C.Edwards.

Ymddiheuriadau

Cyng S.Jones.

Cofnodion Mehefin 2025

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris.

Tai Teg

Croesawodd y cyngor Catrin Roberts o Tai Teg i'n cyfarfod i drafod gwaith a strwythur y sefydliad hwn sy'n helpu ac yn cefnogi pobl lleol i brynu eu cartrefi eu hunain.

Mae'r wybodaeth a grynhyrwyd isod yn rhoi mewnwelediad clir i'r gwaith a gynhelir a'r canllawiau a ddilynwyd gan y sefydliad hwn.

Y nod bwysigaf o Tai Teg yw sicrhau bod pobl lleol yn cael cyfle i brynu tai yn lleol fel y gallant aros a byw yn eu cymuned.

Mae Tai teg yn gweithio o dan y sefydliad Grwp Cynhefin yn ardal Gogledd Cymru a Gogledd Powys.Maen't hefyd yn cyd weithio a Cyngor Gwynedd.

Bydd Tai teg yn helpu pobl sy'n ennill rhwng £16,000 a £60,000 y flwyddyn i brynu tai sy'n gymwys o dan y rheoliad S106 (gwybodaeth ar eu gwefan)

Mae tai teg hefo sawl opsiwn sydd yn rhoi y gallu yn ariannol i pobl lleol brynu tai. Mae'r manylion yn amrywiol a gellir eu dod o hyd iddynt ar eu gwefan.

Gall pobl brynu tŷ hyd at werth £300,000.

Mae ffurfleni cais ar gael ar safle'r we sef

www.taiteg.org.uk/info@taiteg.org.uk

Gan gael gwybodaeth mor bwysig gan Catrin bydd y cyngor cymuned nawr yn chwilio am gyfarfod gyda Heledd Parry (tai Gwynedd) er mwyn darganfod pa

ddewisiadau sydd gan y cyngor cymuned i gynorthwyo pobl leol i brynu eu cartrefi eu hunain.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn y cyfarfod.

Dim

Materion yn codi.

Maes parcio Dolfrwynnog- Mae CNC wedi clirio'r maes parcio.

Ffordd Cefndeuddwr- Mae'r cyngor yn dal i ddisgwyl offerynau gyrraedd y safle er mwyn cwblhau'r gwaith.

Fydd Cyng Griffiths yn trafod y mater gyda swyddogion priffyrdd Cyngor Gwynedd,

Llwybr 80-Mynydd Penthos. Mae CNC wedi cwblhau gwaith clirio coed a r'oedd wedi cau'r llwybr.

Cyffwrdd gyferbyn a Ty'n Y Groes- Mae NWTRA wedi mynychu'r safle a torri planhygion a.y.b r'oedd yn rhwystro golwg gyrwyr sy'n gadael y 'lay-by'.

Gweledigaeth y Cyngor Cymuned.

Cam 1-mewn byd delfrydol, yn eich barn chi beth yw pwrpas Cyngor bach fel Ganllwyd?

Mewn byd sy'n newid o hyd y pwysau ariannol parhaus ar awdurdodau lleol a phob adran lywodraeth Cymru, mae hun yn golygu bod yn rhaid i ni fel cyngor sicrhau ein bod mewn sefyllfa i gyfiawnhau ein presenoldeb. Mae angen gweledigaeth glir i sicrhau ein bod yn weithgar yn hyn o beth. Bydd y cadeirydd yn cysylltu â phob cynghorydd i gasglu eu hymddygiadau ac syniadau cychwynnol ar y pwnc hwn. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf.

Cynghorwr Sir.

Ysgol Ganllwyd- Mae Cyng Griffiths mewn cysylltiad a'r teulu sydd yn berchen yr ysgol a swyddogion Cyngor Gwynedd er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn cael

ei phrynu gan y Cyngor Sir ac yna gellir adnewyddu'r safle a'i droi'n brosiect tai sy'n fuddiol i bobl leol.

Mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud er mwyn cyflawni'r gobaith hwn. Bydd yr Ymgynghorydd Griffiths yn diweddarau'r cyngor am ddatblygiadau.

Coed y Brenin- fydd Cyng Griffiths yn cyfarfod a Elsie Grace CNC ar ddiwedd y mis i drafod y sefyllfa presenol, a cynlluniau tymor hir y safle.

Materion ariannol.

Mae cyngor Gwynedd yn cynnig grant hyd at £5000 i cynghorau cymuned 'Grant Gwynedd Ni'

Mae cynghorwyr yn cael eu gwahodd i gyflwyno syniadau i'r gweinyddwr fel y gellir gwneud cais cyn dyddiad dod i ben y ceisiadau i'w chyflwyno ar ddiwedd y mis.

Cyson Banc Mehefin 2025

Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: £4658.87

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

Cyflog/Paye £100.00

Treuliau banc £5.40

Un Llais Cymru £40.00

Awdit allanol 21/22 £270.00

Rodd neuadd y pentref £250.00

Rodd Capel Libanus £100.00

Yn y banc diwedd mis £3893.47

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Ysiwriant y cyngor- Trafodwyd y mater yma a cytunodd y cyngor i barhau hefo cwmni Zurich.

Roedd y clerc wedi cael awdurdod i dalu'r anfoneb o Zurich £474.18.

Cytunodd y cyngor i brynnu printer newydd £119.98.

HSBC-Mae'r clerc wedi derbyn gwybodaeth gan y banc na fyddant yn codi ffi weinyddol misol o £5 ar gyfrif banc y cyngor.

Gyrru yn y pentref.

Mae canlyniad arolwg cyflymder a oruchwyliwyd gan Gyngor Gwynedd yn yr ardal gyfyngedig i 30 m.p.h. ym mis Tachwedd 2024 wedi cael ei dderbyn gan y cyngor. Mae cyfanswm o 25608 cerbyd a oedd wedi'u gyrru drwodd Ganllwyd ar gyflymder cyfartalog o 33.5m.p.h. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod y cyflymderau a gofrestrwyd ymhlith y 15% diogelaf yng Ngogledd Cymru.

Er mwyn gwella'r ffigurau hyn, mae'r clerc wedi gwahodd tîm yr heddlu 'Go Safe' i'r pentref i drafod a chynllunio unrhyw welliannau a all gael eu gwneud.

Materion cymunedol.

Derbynwyd cwynion gan y cyngor am y materion isod;

Modur mewn cyflwr difrifol wedi ei adael ers rhai wythnosau yn maes parcio y toiled, Ganllwyd.

Gwair a gwrychoedd heb ei dorri yn Hafod y Fraith, Hermon.

A oes gan Gyngor Gwynedd amserlen i dorri gwair a gwrychoedd sydd aro chr ffyrdd?

Twll yn y ffordd gyferbyn Derwen Deg,Ganllwyd.

Fydd y clerc yn cysylltu a'r awdurdodau priodol i ymwneud a'r uchod.